

Peter Williams a'r Beibl Cymraeg

Eryn M. White, BA, PhD

Ym 1770, cyrhaeddwyd carreg filltir nodedig yn hanes yr Ysgrythurau yn y Gymraeg ac yn hanes cyhoeddi'n gyffredinol yng Nghymru gydag ymddangosiad yr argraffiad cyntaf o 'Feibl Peter Williams', y fersiwn cyntaf o'r Beibl Cymraeg i gael ei argraffu yn y wlad ei hun. Am bron i ddwy ganrif wedi iddo ymddangos gyntaf ym 1588 cyhoeddodd y Beibl Cymraeg yn Lloegr. Un o'r rhesymau pennaf dros hynny oedd y gyfraith a fynnai, hyd at y flwyddyn 1695, mai dim ond yn Llundain, Rhydychen a Chaergrawnt y gellid sefydlu gwasg argraffu o fewn y deyrnas. Cyfyngid yr hawl i gyhoeddi'r Beibl yn fwy na hynny hyd yn oed, oherwydd rhaid cofio fod ystyriaethau gwleidyddol yn effeithio'n gryf ar faterion crefyddol pan ymddangosodd y Beibl am y tro cyntaf yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Datblygodd rheolaeth o'r wasg yn flaenoriaeth i'r wladwriaeth yn ystod y 1530au o ganlyniad i ymgais Harri VIII i ddiddymu'i briodas a'i benderfyniad i dorri'n rhydd oddi wrth awdurdod y Pab yn Rhufain. Er mwyn diogelu rhag unrhyw her i ddiwygiad Harri, yr oedd angen i'r awdurdodau reoli print a phropaganda, gan gadw llygad barcud ar gynnwys cynnyrch y wasg argraffu.¹

Ar yr un pryd, gyda'r cynnydd yn y diwydiant argraffu, gellid gwneud elw sylweddol drwy dderbyn yr hawl neilltuol gan y goron i argraffu defnyddiau arbennig, yn enwedig wrth ennill swydd yr Argraffydd Brenhinol, a oedd yn gyfrifol am gynhyrchu deddfau seneddol a chyhoeddiadau brenhinol. Erbyn 1577 trosglwyddwyd y swydd hon i Christopher Barker, a gyda hynny yr unig hawl i argraffu Beiblau yn y deyrnas.² Er mai Beiblau a Llyfrau Gweddi Saesneg a grybwyllwyd ar y pryd, pan ddaeth y Beibl Cymraeg cyntaf yn barod i'r wasg y mae'n amlwg y cymerwyd yn ganiataol mai gan yr Argraffydd Brenhinol yr oedd y monopoli ar ei gyhoeddi a dyna pam y gwelir ar dudalen deitl Beibl William Morgan ei fod wedi argraffu gan 'the deputies of

¹ A. Dawnic, 'The Growth of Government Tolerance of the Press to 1790', yn R. Myers a M. Harris (goln), *Development of the English Book Trade 1700-1899* (Rhydychen, 1981), 29; J. Feather, *A History of British Publishing* (Llundain, 1988), 16-17. Gweler hefyd G. W. Bernard, *The King's Reformation: Henry VIII and the Remaking of the English Church* (Llundain, 2005).

² S. Mandelbrote, 'The Bible and national identity in the British Isles, c.1650-c.1750', yn A. Clayton ac I. McBride (goln), *Protestantism and National Identity: Britain and Ireland, c. 1650-c.1850* (Caergrawnt, 1998), 166-69; S. Mandelbrote, 'The English Bible and its Readers in the Eighteenth Century', yn I. Rivers (gol.), *Books and their Readers in Eighteenth-century England: New Essays* (Llundain, 2001), 50-53; B. J. McMullan, 'The Bible Trade', yn J. Barnard a D. F. McKenzie (goln), *The Cambridge History of the Book in Britain Volume IV 1557-1695* (Caergrawnt, 2002), 459-60; D. Daniell, *The Bible in English: its History and Influence*, (Llundain, 2003), 513.

Christopher Barker'. Bu rhai o ddisgynyddion Christopher Barker hefyd yn Argraffwyr Brenhinol yn ystod y ganrif olynol, felly mae'r enw 'Barker' yn ymddangos yn bur aml ar argraffiadau o'r Beibl Cymraeg yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg. Enw ei fab, Robert Barker, er enghraifft, sydd ar y 'Beibl Bach', yr argraffiad llai costus a llai o faint o'r Beibl a ymddangosodd ym 1630.

Canlyniad y cyfyngiadau hyn ar y wasg oedd i'r Beibl Cymraeg gael ei argraffu yn Lloegr am flynyddoedd lawer, gan amlaf yn Llundain. Erbyn diwedd yr ail ganrif ar bymtheg, serch hynny, dechreuwyd herio monopoli'r Argraffydd Brenhinol ar gyhoeddi'r Beibl gan brifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt a ddadleuai fod y siarteri brenhinol a oedd yn cadarnhau eu safle yn estyn iddynt yr hawl i argraffu'r Beibl.³ O ganlyniad, argraffwyd y Beibl Cymraeg am y tro cyntaf y tu allan i Lundain gan wasg Clarendon, Rhydychen, ym 1690. Yn sgil hynny, cyhoeddwyd argraffiadau hefyd gan wasg Prifysgol Caergrawnt, gan gynnwys argraffiadau cyntaf y Gymdeithas Feiblau ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Wrth reswm, achosai'r ffaith fod rhaid argraffu'r Beibl y tu allan i Gymru am gymaint o'i hanes drafferthion amlwg, o ran dosbarthu copïau ac o ran sicrhau cywirdeb y testun. Nid oedd hyd yn oed Beiblau Saesneg heb eu camgymeriadau, er gwaethaf y ffaith fod yr argraffwyr yn gyfarwydd â'r iaith honno. Brithid rhai o'r argraffiadau a gyhoeddwyd gan John Baskett ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif, er enghraifft, â chynifer o gamgymeriadau fel y cyfeirid atynt fel 'a baskett-full of errors.'⁴ Ymhlith ei orchestion oedd y 'Vinegar Bible', a enillodd yr enw am fod 'vinegar' wedi ymddangos yn lle 'vineyard'⁵ – a gellid dychmygu sut y gallai hynny newid ystyr ambell ddameg yn sylfaenol. Enwocach fyth oedd achos y 'Beibl Drwg' ('the Wicked Bible') a ymddangosodd ym 1631, gydag un gair allweddol ar goll a olygai fod un o'r Deg Gorchymyn yn mynnu 'Thou shalt commit adultery'. Costiodd y gwall hwnnw £300 o ddirwy i'r rheini ynghlwm â chynhyrchu'r gwaith.⁶ Felly, yr oedd sawl cymhelliad dros geisio sicrhau y fersiwn cywiraf posib o'r Beibl, gan gynnwys osgoi cosb ariannol am fethu, ond yr oedd hi'n anodd iawn i gyrraedd y nod bob tro.

Os bodolai anawsterau wrth geisio sicrhau cywirdeb yn Saesneg, yr oedd hi'n ganmil gwaeth yn y Gymraeg. Gwyddys i William Morgan dreulio misoedd lawer yn Llundain yn arolygu'r gwaith o gyhoeddi Beibl 1588 ac hyd yn oed wedyn yr oedd yn ymwybodol fod rhai llithriadau wedi digwydd. Dyna pam yr oedd cael rhywun addas i ddarllen y profleuni cyn eu hargraffu yn holl bwysig. Er bod sylw dyledus yn cael ei dalu i gyfieithwyr a golygyddion y Beibl, efallai y dylid rhoi mwy o barch ar adegau i'r darllenwyr hyn, pobl megis Charles Edwards, a ddarllenodd a chywiro argraffiad 1678 dros yr Ymddiriedolaeth

³ McMullan, 'The Bible Trade', 460-61.

⁴ M. H. Black, 'The Printed Bible', yn S. L. Greenslade (gol.), *The Cambridge History of the Bible* (Caergrawnt, 1963), 463.

⁵ L. Howsam, *Cheap Bibles: Nineteenth-century Publishing and the British and Foreign Bible Society* (Caergrawnt, 1991), 77.

⁶ Daniell, *The Bible in English*, 460.

Gymreig. Gorchwyl manwl a di-ddiolch i raddau oedd ei gyfraniad yntau, er bod golygydd yr argraffiad hwnnw, Stephen Hughes, yn sicr yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd y gwaith, gan sylwi:

...mor anghenrheidiol ydyw, i gymmeryd gofal mawr i atgyweirio beiau'r print yn ein bibl, cyn ei roddi i'r printiwr; ac i ddanfôn gwr medrus, cydwybodol i warchod y press wrth ei brintio; ac onid ê fe spwyllir y cwblw.⁷

Bodolai marchnad barod a chyson ar gyfer y Beibl erbyn y ddeunawfed ganrif, oherwydd y cynnydd a welid yn y nifer a fedrai ddarllen yn yr oes, yn enwedig drwy weithgarwch ysgolion cylchynol Griffith Jones, a wnâi ddefnydd cyson o'r Beibl fel eu gosodlyfr.⁸ Argraffwyd tua 100,000 copi o'r Beibl yn ystod y ddeunawfed ganrif,⁹ ond gyda'r boblogaeth yn codi i ryw hanner miliwn erbyn diwedd y ganrif, a dros 200,000 wedi derbyn addysg yn yr ysgolion cylchynol, yr oedd yna brinder Beiblau o hyd, a galw bob amser am gyhoeddi rhagor. Y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristnogol (The Society for Promoting Christian Knowledge, neu'r SPCK) a fu'n gyfrifol am gyhoeddi'r rhan fwyaf o'r argraffiadau hyn a hwythau oedd prif gyflenwyr y Beibl Cymraeg yn y cyfnod cyn cyhoeddi Beibl Peter Williams, gan argraffu'r gwaith yn Llundain. Hyd yn oed wedi rhoi caniatâd i sefydlu gweisg argraffu y tu allan i Lundain, Rhydychen a Chaergrawnt ym 1695, aeth cryn dipyn o amser heibio cyn cyhoeddi'r Beibl yng Nghymru, oherwydd yr oedd y fraint o argraffu'r Beibl yn parhau yn eiddo i argraffwyr penodol yn Llundain yn bennaf.

Ar ben hynny, nid ar chwarae bach yr âi gwasg argraffu ati i gynhyrchu argraffiad o'r Beibl. Er gwaethaf y galw cynyddol, yr oedd y Beibl ar yr un pryd gyda'r llyfr mwyaf costus i'w argraffu yn y Gymraeg oherwydd ei faint a nifer y copïau yr oedd angen eu cynhyrchu. Galwai am fuddsoddiad sylweddol o ran stôr o deip er mwyn cysodi'r tudalennau, rhywbeth a fyddai tu hwnt i adnoddau mwyafrif tai argraffu cymharol fychan Cymru. Gwell oedd gan lawer o'r gweisg Gymreig o'r herwydd i ganolbwyntio ar gynhyrchu deunydd mwy anffurfiol, poblogaidd a rhad, megis yr almanaciau a gyhoeddodd Thomas Jones o'i ganolfan yn yr Amwythig ar ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg a dechrau'r ddeunawfed ganrif.¹⁰ Ym 1718 y sefydlwyd y wasg argraffu gyntaf ar dir a daear Cymru, yn Nhrefhedyn, neu Adpar erbyn hyn, ger Castellnewydd

⁷ S. Hughes (ed.), *Gwaith Mr Rees Prichard* (Llundain, 1672), Rhagair.

⁸ Gweler G. H. Jenkins, 'Hen Filwr dros Grist: Griffith Jones, Llanddowror', yn Jenkins, *Cadw Ty mewn Cymwl Tystion* (Llandysul, 1990), 153-74; E. M. White, 'Addysg Boblogaidd a'r Iaith Gymraeg 1650-1800', yn G. H. Jenkins (gol.), *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb: Yr Iaith Gymraeg cyn y Chwyldro Diwydiannol* (Caerdydd, 1997), 322-34.

⁹ E. M. White, *The Welsh Bible* (Stroud, 2007), 75-76.

¹⁰ G. H. Jenkins, *Thomas Jones yr Almanaciwr 1648-1713* (Caerdydd, 1980), 41-71; R. Llwyd, 'Printing and Publishing in the Seventeenth Century', yn P. H. Jones ac E. Rees (goln), *A Nation and its Books: A history of the book in Wales* (Aberystwyth, 1998), 101-03.

Emlyn, ond cymerai rai blynnyddoedd i'r diwydiant argraffu yng Nghymru fagu ar ragor o brofiad gan ddatblygu'n fwy effeithiol a phroffesiynol er mwyn medru dygymod â'r her o argraffu'r Beibl. Y mae'n werth nodi mai John Ross, Caerfyrddin, a wnaeth gyhoeddi Beibl Peter Williams, Albanwr a oedd â phrofiad o argraffu yn Llundain cyn symud i Gymru a gŵr yr awgrymodd Eiluned Rees ei fod wedi gwneud llawer i gyflwyno safonau proffesiynol i'r diwydiant print yng Nghymru.¹¹

Yn ogystal â'r cyfyngiadau ar ddatblygiad y wasg argraffu yng Nghymru, rhwystrid yr hawl i argraffu'r Beibl gan y monopoli a feddai'r Argraffydd Brenhinol a'r ffaith fod Deddf Cyfieithu'r Ysgrythur ym 1563 wedi gorchymyn fod angen sêl bendith Esgobion Tyddewi, Llandaf, Llanelwy, Bangor a Henffordd cyn medru cyhoeddi fersiwn Cymraeg o'r Beibl.¹² Yn wyneb hyn i gyd, efallai ei fod yn syndod fod y Beibl wedi ei argraffu mor gynnar â 1770 yng Nghymru. Efallai hefyd ei fod yn rhywfaint o syndod mai Peter Williams oedd y gŵr a oedd yn gyfrifol am y datblygiad arloesol hwn. Yr oedd Peter Williams yn fab fferm o blwyf Llansadarn, ger Talacharn yn ne-orllewin sir Gaerfyrddin, ardal Griffith Jones a Thomas Charles. Ei fam mae'n debyg a'i ddysgodd i ddarllen ac ysgrifennu'n blentyn, ond yn ddeunaw oed aeth yn ddisgybl am dair blynedd i Ysgol Ramadeg Caerfyrddin, ysgol ag enw parchus, lle cafodd sylfaen dda yn y clasuron. Erbyn hynny, yr oedd wedi colli'i ddau riant ac o dan ofal ei ewythr, ond dywedir bod Madam Bridget Bevan, un arall o ffigurau amlwg y fro honno, wedi rhoi cymorth ariannol iddo i'w gadw yn yr ysgol, efallai gan wybod ei fod yn bwriadu ei urddo'n offeiriad yn y pen draw.

Yn ystod y cyfnod y mynychai'r ysgol hon daeth George Whitefield, y Methodist enwog o Loegr, yng nghwmni Howel Harris, i bregethu yn y dref. Gan nad oedd yr ysgolfeistr yn or-hoff o'r Methodistiaid, gwaharddwyd y disgyblion rhag mynychu'r bregeth, ond aeth Peter Williams i wrando er gwaethaf hynny. Pregethodd Whitefield yn Saesneg ond ail-adroddwyd byrdwn ei bregeth yn Gymraeg gan Howel Harris. Ymateb Whitefield i'w ymweliad â'r dref oedd nodi mai dyma 'one of the greatest and most polite places in Wales,'¹³ oedd yn wrthgyferbyniad llwyr â barn arferol Howel Harris fod Caerfyrddin yn cynnig rhagolwg o uffern. Er gwaethaf ei ddrwgdybiaeth arferol, nododd Harris yn ei ddyddiadur ar ddiwedd y diwrnod hwnnw, 'I trust great good was done today,'¹⁴ ac yn sicr ymhlith y rhai a effeithiwyd mwyaf oedd Peter Williams. Dyna ddechrau'r broses a wnaeth ei droi at y

¹¹ E. Rees, 'Wales and the London Book Trade before 1820', yn R. Myers a M. Harris (goln), *Spreading the Word: the Distribution of Networks of Print 1550-1850* (Winchester, 1990), 11; idem, 'The Welsh Book Trade from 1718 to 1820', yn Jones a Rees, *A Nation and its Books*, 125.

¹² Cynhwyswyd enw Esgob Henffordd, mae'n debyg, oherwydd bod amryw o siaradwyr Cymraeg yn ei esgobaeth ban basiwyd Deddf Cyfieithu'r Ysgrythurau i'r Gymraeg ym 1563 ac, yn wir, hyd at y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

¹³ L. Tyerman, *Life of the Rev. George Whitefield*, 2 vols (Llundain, 1876-77), II, 58-59.

¹⁴ Aberystwyth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Archif y Methodistiaid Calfinaidd (CMA), Dyddiaduron Howel Harris, 99, 14 Ebrill 1743.

Methodistiaid. Ordeiniwyd ef yn ddiagon yn yr Eglwys ar ôl iddo ymadael â'r ysgol a bu'n gwasanaethu fel curad am rai blynyddoedd, heb lawer o lwyddiant oherwydd ei dueddiadau Methodistiaidd cynyddol. Erbyn 1747 yr oedd wedi rhoi heibio gofalon plwyf ac yn canolbwyntio'n llwyr ar ei lafur gyda'r Methodistiaid. Y mae'n go debyg y byddai wedi ennill safle parchus ymhlith y Methodistiaid petai ond oherwydd y ffaith ei fod yn glerigwr Anglicanaidd, ond, ar ben hynny, yr oedd yn bregethwr poblogaidd a diflino, felly datblygodd yn un o ffigurau mwyaf blaenllaw y mudiad mewn byr amser.

Eto i gyd, nid oedd y cefndir hwn yn debyg o argyhoeddi llawer o bobl ei fod yn gymwys i olygu argraffiad o'r Beibl, gan mai Anglicaniaid ffyddlon fel rheol oedd wedi ymgymryd â'r gorchwyl hwnnw. Ystyriai Ieuan Fardd hi'n gywilydd ar wŷr llên Eglwys Loegr fod Methodist wedi dod i'r adwy i ymgymryd â'r dasg a phoenai'n ogystal a fedrai Williams ddygymod â'r gwaith, gan 'Ni fedr ddim iaith iawn, na'i hysgrifenu chwaith, megys y mae rhai llyfrau a ysgrifennodd yn tystio.'¹⁵ Ysgrifennai Ieuan Fardd y geiriau hyn at ei gyfaill, Richard Morris, un o Forysiaid Môn a Llywydd y Cymmrodorion yn Llundain, y gŵr a fu'n gyfrifol am olygu dau argraffiad mawr o'r Beibl ar ran yr SPCK, ym 1746 a 1752. Gofynnwyd iddo ymgymryd â'r gwaith ar ôl marwolaeth Moses Williams a oedd wedi llywio argraffiadau blaenorol y ddeunawfed ganrif drwy'r wasg. Nid oedd Morris wedi derbyn addysg brifysgol, felly ni allai ef na'i gyfeillion feio Peter Williams am yr un diffyg. Y gofid pennaf felly oedd ynglŷn â'i allu yn y Gymraeg, ond ni feddai'r un cyfieithydd na golygydd blaenorol o'r Beibl ar unrhyw gymwysterau addysgiadol yn y Gymraeg, gan nad oedd yn bosib eu hennill mewn unrhyw brifysgol nac academi ar y pryd. Rhywsut, llwyddwyd er gwaethaf hynny i gael rhywun ymhob cenedlaeth a oedd yn abl ar gyfer y gwaith o oruchwyllo cyhoeddi'r Ysgrythur, ond coleddai rhai o gylch diwylliedig Morysiaid Môn amheuo dybryd a haeddai Peter Williams ei gynnwys ymhlith y llinach anrhydeddus hon.

Penodwyd nifer o olygyddion blaenorol ar ôl rhyw broses anffurfiol o holi am bobl gymwys. Gwahoddwyd Richard Morris gan yr SPCK, er enghraifft, ar ôl iddynt ymgynghori ag Esgob Bangor, a oedd wedi ymofyn barn William Morris, a awgrymodd y byddai ei frawd yn ymgeisydd teilwng.¹⁶ Dewis cynhyrchu Beibl 1770 o'i ben a'i bastwn ei hun a wnaeth Peter Williams oherwydd ei fod yn gweld yr angen, nid yn unig am argraffiad ychwanegol o'r Beibl, ond am esboniad ar y Beibl. Dylid cofio nad fel 'y Beibl' yr argraffwyd Beibl Peter Williams yn y lle cyntaf, er gwaethaf y ffaith mai fel yna y cyfeiriwyd ato'n gyson erbyn hyn. Oherwydd y cyfyngiadau ar y caniatâd i gyhoeddi, y ffordd symlaf i lwyddo i argraffu'r fersiwn hwn o'r Ysgrythur yng Nghymru oedd drwy fynnu mai esboniad ydoedd, a'r esboniad hwnnw yn digwydd bod yn cynnwys holl destun y Beibl. Y mae'n bosib fod yr ystyriaethau hyn hefyd yn egluro y teitl a roddwyd ar y gwaith. Y *Beibl Cyssegr-lan* oedd teitl Beibl William Morgan, ond newidiwyd y sillafu yn argraffiad 1620 i'r *Bibl*

¹⁵ Dyfynnwyd yn G. M. Roberts, *Bywyd a Gwaith Peter Williams* (Caerdydd, 1943), 63.

¹⁶ Gweler D. Wyn William, *Cofiant Richard Morris (1702/3-79)* (Llangefni, 1999).

Cyssegr-lan a dyna fu'r sillafiad arferol tan 1870, pan aethpwyd yn ôl at y 'Beibl'. Teitl llawn Beibl Peter Williams ym 1770 oedd *Y Bibl Sanctaidd: sef yr Hen Destament a'r Newydd, gyda Nodau a Sylwiadau ar bob Pennod*. Y mae'n bosib fod y newid o 'cyssegr-lan' i 'sanctaidd' yn rhan o'r broses o bwysleisio mai 'esboniad' oedd y cyhoeddiad hwn. Y gwir amdani oedd ei fod yn edrych yn hynod debyg i'r Beibl a gellid tybio mai dyna sut yr oedd mwyafrif y prynwyr yn ei ystyried. Cynhwyswyd nodiadau mewn print mân ar ddiwedd pob pennod, heb dorri ar draws y testun o gwbl ac fe ellid felly ei ddefnyddio fel copi arferol o'r Beibl, ac mae'n go sicr mai dyna a wnaed gan nifer o bobl yn y cyfnod.

Ystyriai Peter Williams ei hun y nodiadau ymylol hyn yn allweddol bwysig. Dadleuai yn ei ragymadrodd i'r Beibl nad oedd yn ddigon i gynhyrchu copïau o'r Ysgrhythur yn unig, oherwydd yr oedd angen yn ogystal i egluro darnau i'r darllenwyr er mwyn rhoi hyfforddiant ac arweiniad iddynt wrth ddarllen a dehongli: 'Dyma gneuen ragorol ond pwy a'i tyrr? Dyma fara nefol, ond pwy a'i cyfranna i ni?'¹⁷ Dyna sut y gwelai swyddogaeth ei Feibl a dyna pam yr aeth ymlaen i gynhyrchu ei *Mynegair Ysgruthurol* ym 1773 ac, yn fwy dadleuol, fersiwn arall o'r Beibl ym 1790. Beibl llai o faint oedd hwn a elwid yn 'Feibl John Canne' gan ei fod yn seiliedig ar Feibl Saesneg gyda nodiadau a gynhyrchwyd gan John Canne am y tro cyntaf ym 1642.

Gellid tybio y byddai'r gweithgarwch hwn ar ran Peter Williams yn atgyfnerthu'i safle ymhlith y Methodistiaid, oherwydd ni ellid amau llwyddiant Beibl 1770. Cafodd groeso brwd gan feirdd yr oes a chydabu Richard Morris, gŵr â phrofiad o olygu Beiblau, mai 'Llyma bwmp o Fibl gwyh.'¹⁸ Gwerthwyd ef mewn pymtheg rhan am swllt yr un neu'r argraffiad cyfan wedi ei rwymo am gini a buan y gwerthwyd yr 8,600 copi. Gymaint oedd y galw amdano fel y cynhyrchwyd ail argraffiad gyda 6,400 copi erbyn 1781 a thrydydd argraffiad o 4,000 copi ym 1797. Ond, yn hytrach nag ennill canmoliaeth ei gyd-Fethodistiaid, cychwynnodd Beibl 1770 ar gynnen a fyddai'n arwain yn y pen draw at ddiarddel Peter Williams o'r mudiad ym 1791. Asgwrn y gynnen hon oedd rhai o'r nodiadau a luniodd Peter Williams ar gyfer Beibl 1770, yn fwyaf arbennig ei sylwadau ar bennod gyntaf Efengyl Ioan. Credid bod y rhain yn awgrymu agwedd anuniongred tuag at athrawiaeth y Drindod. Dechreuid sibwrdd bod Peter Williams yn euog o Sabeliaeth, sef yr heresi o awgrymu nad oedd y Drindod yn dri pherson gwahanol ond yn hytrach yn dri agwedd olynol o'r Duwdod.

Bu llawer o drafod ar achos Peter Williams er mwyn ceisio darganfod beth oedd gwraidd y drwg a chyfaddefodd R. Tudur Jones mai anodd yw barnu beth oedd union natur ei heresi.¹⁹ Olrheiniwyd y dadleuon gan Gomer Roberts yn ei *Bywyd a Gwaith Peter Williams* (1943) a cheir ymdriniaeth hefyd gan R. T. Jenkins mewn erthygl a ymddangosodd gyntaf yn *Y Traethodydd* ym 1944.

¹⁷ *Y Bibl Sanctaidd* (Caerfyrddin, 1770), v.

¹⁸ Dyfynnwyd yn Roberts, *Peter Williams*, 69.

¹⁹ R. Tudur Jones, 'Peter Williams', *Oxford Dictionary of National Biography*, www.oxforddnb.com.

Dyma ran o'r sylwadau ar bennod gyntaf Ioan oedd yn ennyn pryder:

Yn y dechreuad yr oedd y Gair, daliwn sulw, nid oedd dechreuad cyn bod y Gair, ond yr oedd y Gair yn y dechreuad – Yr un yw Meddwl Duw a'i ewyllys, a'r un yw ei ewyllys a'i air (oherwydd nid yw yn cyfnewid) ac efe a ewyllysiodd cyn bod byd nac angel, roddi Crist yn ben ar y byd: felly y mae Duw yn Dad, Mab ac Yspryd Glân o dragwyddoldeb, yn ei ewyllys dragwyddol ei hun....ac fe welodd rhai ei ogoniant, ac a gredasant fod Iesu yn Dduw! Nid yn Dduw trwy ordeiniad fel y mae rhai yn ofer siarad, eithr mai efe yw'r unig wir a'r bywiol Dduw – canys y mae'r Ysgrhythur yn tystio mai'r Dyn Iesu yw'r Tad tragwyddol...²⁰

Gellir deall sut y gallai cyfeiriadau at 'y dyn Iesu' yn 'Dad tragwyddol' arwain at gyhuddiadau nad oedd yn gwahaniaethu'n ddigonol rhwng tri pherson y Drindod a bod felly reswm dilys gan y Methodistiaid dros bryderu ynglŷn â'i athrawiaeth. Er gwaethaf y gofidion amdano, ni weithredwyd yn erbyn Peter Williams ar y pryd a chafodd lonydd i barhau i argraffu ei Feibl. Eto, awgryma traddodiad bod Daniel Rowland wedi estyn rhybudd preifat iddo yn sgîl cyhoeddi Beibl 1770, rhywbeth a fyddai'n egluro'r llinell ym marwnad Williams i Rowland: 'Ti ro'ist i mi lawer sen.'²¹ Er gwaethaf hynny, ni wnaeth Williams unrhyw ymdrech i newid ei nodiadau yn yr ail argraffiad o'i Feibl a chredir bod yr anwybyddu hwn ar gerydd tawel Rowland wedi ennyn drwgdeimlad rhai o'r to ifanc ymhlith arweinwyr y Methodistiaid, yn enwedig Nathaniel, mab Daniel Rowland. Ymddengys fod storm wedi codi yn sgîl yr ail argraffiad ym 1781, ond y llwyddwyd eto i dawelu pethau ac arbed Peter Williams rhag ei ddisgyblu gan y mudiad, yn bennaf, y mae'n debyg, drwy oddefgarwch Rowland.

Daeth pethau i'r pen, serch hynny, gyda chyhoeddi Beibl John Canne ym 1790. Golygodd Peter Williams yr argraffiad hwn ar y cyd â David Jones, gweinidog gyda'r Bedyddwyr. Ymddengys mai syniad David Jones oedd hyn yn wreiddiol a'i fod wedi ymofyn am gymorth Peter Williams oherwydd profiad hwnnw yn y maes.²² Bwriedid hwn fel Beibl poced, a fyddai'n cynnwys cyfieithiad o nodiadau a luniwyd gan John Canne yn Saesneg. Mewn gwirionedd, y mae'r enw 'Beibl John Canne' ychydig yn gamarweiniol, gan mai crynhoi rhai o'i nodiadau wnaeth Peter Williams gan amlaf, gan ychwanegu ei sylwadau ei hun yn ogystal. Nid y nodiadau oedd y broblem bennaf y tro hwn ond y ffaith fod Williams wedi newid rhai geiriau yn y testun a'r amheuaeth ei fod wedi gwneud hynny er mwyn iddynt gyd-fynd â'i syniadau am y Drindod. Un peth oedd ychwanegu nodiadau i'r Beibl, ond peth arall oedd ymyrryd â'r testun, er bod Williams ei hun yn mynnu bod y newidiadau'n hollol

²⁰ *Y Bibl Sanctaidd*, Ioan 1:1.

²¹ D. Llwyd Morgan, *Pobl Pantycelyn* (Caernarfon, 1986), 41.

²² D. E. Jenkins, *The Life of the Rev. Thomas Charles B.A. of Bala Volume II (1784-1805)* (Dinbych, 1908), 61-62.

gydnaws â'r gwreiddiol ac hefyd yn fynych gyda'r cyfieithiad Saesneg.²³

Nathaniel Rowland sydd wedi cael ei ystyried fel arfer yn brif erlidiwr Peter Williams. Tueddir i'w feio am hynny oherwydd natur ei bersonoliaeth; yn sicr, cynigir digon o dystiolaeth i awgrymu ei fod o gymeriad awdurdodol, balch ac amhleserus, o anian gwahanol iawn i'w dad. Amlygodd ei elyniaeth tuag at Peter Williams pan gododd testun y Beibl yn y gorffennol, yn enwedig, yr ymddengys, ar ôl yr ail argraffiad pan ddaeth yn amlwg nad oedd Williams wedi newid dim ar y nodiadau dadleuol. Yr adeg hwnnw, y mae'n debyg, y ceryddwyd Nathaniel gan ei dad am fod mor llym tuag at Williams gyda'r geiriau, 'Nat, Nat, ti a gondemniaist dy well.'²⁴ Tybed nad oedd y geiriau yna'n dal i frifo balchder Nathaniel ym 1791? Oherwydd yr oedd Nathaniel yn ŵr a oedd wedi derbyn addysg brifysgol ac yn sicr o deimlo'i hun yn fwy o ysgolhaig a diwinydd na Peter Williams. Gellid awgrymu fod rheswm ychwanegol pam fod Peter Williams a'i Feibl wedi ennyn dicter Nathaniel Rowland, oherwydd yr oedd y Sasiwn Fethodistaidd ers tro wedi awgrymu y dylai Rowland a Dafydd Jones, Llangan, fynd ati i baratoi Beibl poced ar gyfer ei argraffu, ond ymddengys fod Peter Williams wedi achub y blaen arnynt.²⁵ Y mae'n bosib fod hyn yn ergyd arall i falchder Nathaniel Rowland a'i fod ef, ac efallai eraill o'r brodyr, yn eiddigeddus o lwyddiant Beibl Peter Williams.

Eto, nid mater i Nathaniel Rowland yn unig oedd penderfynu tynged Peter Williams, oherwydd yr oedd Thomas Charles hefyd yn datblygu'n ffigwr blaenllaw yn y mudiad erbyn y 1790au. Bu cryn drafod a dadlau hefyd ynglŷn â rôl Thomas Charles yn y diarddeliad.²⁶ Tueddid drwy'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac i mewn i'r ugeinfed ganrif i roi'r bai am erlid Peter Williams bron yn gyfan gwbl ar Nathaniel Rowland,²⁷ gan esgusodi Thomas Charles i raddau helaeth iawn o unrhyw gyfrifoldeb, er gwaethaf y ffaith fod Charles yn arwain Sasiwn y Gogledd a ddisgyblodd Peter Williams ac er gwaethaf y dystiolaeth yn llythyron Williams ei fod yn enwi Charles yn yr un gwynt â Nathaniel fel ei wrthwynebwyr pennaf.²⁸ Anodd peidio â chredu fod Thomas Charles o blaid diarddel Williams ac y mae'n ddigon posib iddo wneud hynny am resymau dilys, yn ei olwg yntau, oherwydd ei fod yn ofni effaith dylanwad y Beiblauc ac yn ceisio amddiffyn athrawiaeth uniongred.

Wrth drafod rôl Thomas Charles, erys un cymeriad blaenllaw arall yn y ddrama sy'n haeddu sylw, sef William Williams, Pantycelyn, er iddo farw ar 11 Ionawr 1791, cyn diarddel y Williams arall yn mis Mai 1791. Hyd yn oed ar

²³ Cyflwynodd ei ddadleuon yn ei gyfrol *Llythyr at Hen Gydymaith mewn perthynas i gywirdeb cyfieithiad Bibl John Cann, yn ymddiffyn Diwygiad, ac yn gwrthbrofi Camachwyniad* (Caerfyrddin, 1791).

²⁴ R. H. Evans, 'Y Dadleuon Diwinyddol (1763-1814)', yn G. M. Roberts (gol.), *Hanes Methodistaeth Galfinaidd Cymru. Cyfrol II: Cynnydd y Corff* (Caernarfon, 1978), 398.

²⁵ Evans, 'Y Dadleuon Diwinyddol', 394.

²⁶ Jenkins, *Life of Thomas Charles*, 73-78.

²⁷ Gweler, er enghraifft, J. Hughes, *Methodistaeth Cymru Cyfrol I* (Wrecsam, 1851), 418-19; J. Morgan Jones a W. Morgan, *Y Tadau Methodistaidd* (Abertawe, 1895), 451-52.

²⁸ Roberts, *Peter Williams*, 102.

ôl ei farwolaeth, y mae'n bosib iawn fod ei ddylanwad yn parhau i effeithio ar Charles ac ar y modd y gweithredodd. Yn ystod misoedd olaf 1790 a dechrau Ionawr 1791 ysgrifennodd Pantycelyn gyfres o lythyron at Thomas Charles, gan wybod ei fod yn ei gystudd olaf ac mai'r rhain fyddai'r negeseuon olaf ganddo. Cafodd amser i bendroni dros ei eiriau oherwydd bu'n gaeth i'w ystafell wely am wythnosau mewn poen ac anghysur dirfawr a cheir tystiolaeth fod dyfodol y mudiad yn pwyso'n drwm ar ei feddwl yn ystod yr adeg hwn. Yr oedd teimlo'i hun mor ddiymadferth yn amlwg yn rhwystredigaeth iddo, fel yr esboniodd mewn darn o'i lythyr olaf a ddyfynnwyd yn aml: 'Meddyliwch fath siomedigaeth i ddyn ag oedd yn trafaelio agos i dair mil o filltiroedd bob blwyddyn tros 50 o flynyddau fod y nawr heb drafaelio dim rhagor na 40 troedfedd y dydd, sef o'r tân i'r gwely.'²⁹ Efallai nad yw'n syndod gan hynny ei fod yn siarsio Thomas Charles i ymdrechu'n ddiflino tra bod ganddo'r nerth i wneud hynny: 'O annwyl annwyl frawd, gweithiwch tra yw hi yn ddydd, mae'r nos yn dyfod arnoch fel y daeth arnai yma, pan nas gellwch drafaelio na phregethu.'³⁰

Un o'r pethau olaf y soniodd amdano oedd yr angen dybryd am ysgolion Cymraeg i ddysgu 'darllen gair Duw' ac o fewn ychydig flynyddoedd yr oedd Charles wedi ceisio cyflenwi'r diffyg drwy sefydlu ysgolion Sul at y pwrpas. Hefyd yn y llythyron olaf hyn, rhybuddiodd Charles i fod yn wyliadwrus ynglŷn ag unrhyw arlliw o heresi, gan boeni'n arbennig am dwf Undodiaeth. Yn ôl Gomer Roberts, yr oedd cynnwys y llythyron hyn 'megis llais yn siarad o'r bedd, canys ar ffiniau deufyd yr ysgrifennodd Williams.'³¹ Gall fod rhai o'r sylwadau am syniadau cyfeiliornus am y Drindod yn cyfeirio at helynt diweddaraf Peter Williams, yn ogystal ag at syniadau'r Undodiaid a'u bod wedi pigo cydwybod Charles i weithredu'n llym er mwyn gwarchod y gwirionedd.

Dadleuai D. E. Jenkins, cofiannydd Thomas Charles, fod eisoes elfen o ddrwgdeimlad rhwng Charles a Peter Williams am resymau personol a theuluol.³² Y mae'n debyg fod Thomas Charles ar un adeg fel petai'n ymserchu ym Margaret, merch Peter Williams, cyn iddo droi ei sylw'n hytrach at Sally Jones y Bala, a ddaeth yn wraig iddo maes o law. Awgrymid bod y sarhad ar ei ferch wedi digio Williams ac wedi effeithio ar y berthynas rhwng y ddau Fethodist. Y mae cymhlethdodau carwriaethol plant y tadau Methodistiaidd yn destun drama ynddynt eu hunain. Bu Nathaniel Rowland ar un adeg yn awyddus i briodi Elizabeth, neu Betty, unig blentyn Howel Harris, ond ni chafodd unrhyw groeso gan Harris. Priododd yn hytrach â Margaret, neu Peggy, merch Howel Davies, un arall o'r arweinwyr cynnar. Er ei fod yn bosib fod ffactorau personol tebyg yn effeithio ar wleidyddiaeth fewnol Methodistiaeth, y mae'n anodd gwybod faint o bwys i roi arnynt yn hyn o beth. Ymddengys o leiaf fod perthynas Williams gyda Nathaniel Rowland a Thomas Charles ychydig yn anghysurus cyn i helynt y Beibl amlygu'i hun ac na allai o reidrydd ddibynnu ar eu hewyllys da yn y mater.

²⁹ G. M. Roberts, *Y Pêr Ganiedydd, Cyfrol I: Trem ar ei Fywyd* (Aberystwyth, 1949), 171-72.

³⁰ *Ibid.*, 172.

³¹ Roberts, *Peter Williams*, 88.

³² Jenkins, *Life of Thomas Charles*, 68-69.

Peter Williams, wrth gwrs, oedd yr ail ffigwr blaenllaw ymhlith Methodistiaid y ddeunawfed ganrif i'w gyhuddo o heresi a'i alltudio o'r mudiad o ganlyniad. Y cyntaf oedd Howel Harris ym 1750, a gyhuddwyd, gyda chryn gyfiawnhad, o goleddu Patripasiaeth, sef iddo bregethu mai Duw y Tad a fu farw ar y groes yn hytrach na pherson dynol Crist. Nid oes amheuaeth fod cysgod achos Harris wedi disgyn dros helynt Peter Williams flynyddoedd wedyn. Gwnaeth Daniel Rowland ei hun y cysylltiad pan atgoffodd Williams, 'Cofia am Howel Harris, druan. Yr oedd ef yn ewyllysio bod yn ben, ond gwnaeth Duw ef yn gynffon.'³³ Gellir gweld tebygrwydd hefyd yn yr awyrgylch o glebran a hel straeon a nodweddaï'r mudiad yn y cyfnodau yn arwain i fyny at y naill achos a'r llall. Dywedai Peter Williams mewn llythyron at ei fab ei fod yn cael ar ddeall gan eraill fod rhai o'r arweinwyr Methodistiaidd yn benderfynol i'w ddiarddel. Yn yr un modd ar ddiwedd y 1740au, clywai Harris bob math o hanesion wrth deithio'r wlad am yr hyn a ddywedai Daniel Rowland a William Williams amdano y tu ôl i'w gefn.³⁴ Gwnâi'r cleber hyn lawer i beri i'r ddwy ochr yn yr anghydfod i ymgaledu yn eu hagwedd, gan ei gwneud hi'n anodd ar y naw iddynt ddod ynghyd i drafod yn adeiladol a hwythau eisoes wedi eu corddi â drwgdeimlad ac amheuaeth.

Y mae'n bosib, serch hynny, fod hanes dieithrio Harris wedi achub croen Peter Williams rhag rhagor o erledigaeth yn gynt yn ei hanes. Pan ymddangosodd y Beibl cyntaf ym 1770 dim ond saith mlynedd a aethai heibio ers i Harris gymodi'n llawn â'i gyd-Fethodistiaid. Chwaraeodd Williams ran bur amlwg yn y cymodi hwnnw, gan alw yn Nhrefeca i weld Harris yn Ebrill 1757 ac eto, yng nghwmni Williams Pantycelyn, ym Mehefin 1759, gan godi'r posibilrwydd o adfer Harris i blith y mudiad.³⁵ Yr oedd hefyd ymhlith y chwech a dorrodd eu henwau ar y llythyr yn gwahodd Harris yn swyddogol yn ôl i'r gorlan Fethodistaidd ym 1762.³⁶ Ni fyddai'n syndod fod y cof am y trafferthion a ddioddefodd y mudiad yn sgil yr Ymraniad wedi dylanwadu ar Daniel Rowland yn arbennig a gellid deall ei fod yn awyddus i osgoi sefyllfa debyg yr eildro. Yn ôl traddodiad, rhybuddiwyd Williams gan Rowland, ac o bosib William Williams, i droedio'n ofalus o ran athrawiaeth ond ni dderbyniodd gerydd mwy swyddogol, er trafod ar ei syniadau yn y Sasiwn. Pan gododd helynt am Feibl John Canne, yr oedd Rowland yn ei fedd ers misoedd a Phantycelyn wedi ei ddilyn ers dechrau'r flwyddyn. Peter Williams ei hun oedd yr olaf o'r hen do arloesol o'r tadau Methodistaidd ac nid oedd neb ar ôl felly i'w ddiogelu rhag y cyhuddiadau'n ei erbyn ac efallai'n wir y dylai fod wedi rhagweld y gallai'r sefyllfa honno godi wrth gofio'r gwrthwynebiad i'w sylwadau ym Meibl 1770.

³³ J. Owen, *Cofhadd am Daniel Rowland* (Caerlleon, 1839), 80.

³⁴ E. M. White, "'A Breach in God's House': the division in Welsh Calvinistic Methodism 1750-63", yn N. Yates (gol.), *Bishop Burgess and his World: Culture, Religion and Society in Britain, Europe and North America in the Eighteenth and Nineteenth Centuries* (Caerdydd, 2007), 85-92.

³⁵ Dyddiaduron Howel Harris 5-6 Ebrill 1757; 12 Mehefin 1759; G. M. Roberts, 'Pobl Rowland yn ystod yr Ymraniad 1750-1763', yn G. M. Roberts (gol.), *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru. Cyfrol I: Y Deffroad Mawr* (Caernarfon, 1973), 393-98.

³⁶ CMA, LIS Trefeca 2472, 19 Mai 1762.

Rhaid cydnabod hefyd fod natur cymeriad Peter Williams yn elfen bwysig yn yr helynt. Os oedd Nathaniel Rowland yn ormesol a llawn hunandeb, yr oedd Peter Williams ar y llaw arall yn unplyg a styfnig. Ei ymateb arferol i bob gwrthwynebiad a brofai oedd i ddadlau'n ôl yn gadarn heb ildio modfedd o dir. Yn sicr, cafodd ddigon o brofiad o erledigaeth yn ystod ei yrfa gyda'r Methodistiaid, yn arbennig oherwydd ei fod yn un o'r arloeswyr o ran teithiau pregethu i'r gogledd lle dioddefodd gryn dipyn o wawd a chasineb, er iddo lwyddo i dorri cwys newydd i'r achos yno.³⁷ Hyd yn oed cyn hynny, daeth i arfer â gwrthwynebiad yn ystod ei yrfa fel curad eglwysig oherwydd ei ymlyniad at Fethodistiaeth. Ei blwyf cyntaf oedd Eglwys Gymyn, sir Gaerfyrddin, lle gwasanaethodd yn lle'r rheithor absennol, John Evans, gelyn mawr Griffith Jones, a oedd yn byw yn Llundain ac yn ymweld â'i blwyf ryw unwaith y flwyddyn. Arfer Williams oedd i ddarllen allan pregethau yr oedd wedi eu paratoi'n drwyadl o flaenllaw ond, ar un achlysur, pregethodd o'r frest mewn dull nodweddiadol Fethodistaidd a buan y derbyniodd Evans adroddiad gan ei wraig fod ei gurad yn coleddu syniadau ac agweddau annerbyniol a'r canlyniad fu ei daflu allan o'r fywoliaeth.

Wedi hynny, penodwyd Peter Williams yn gurad dros dro yn Llangrannog, yn sgil ymddiswyddiad y curad blaenorol oherwydd anfodlonrwydd â'i gyflog – rhywbeth a ddylai fod wedi rhybuddio Williams i gadw draw o bosib. Daeth yn boblogaidd iawn yn yr ardal, ond un Sul, cyrhaeddodd yr eglwys i ddarganfod ei ragflaenydd wrth y drws yn mynnu ei fod wedi dod i hawlio'r plwyf yn ôl ac yn datgan ei fwriad i gynnal y gwasanaeth. Gyda'r wardeniaid a'r gynulleidfa mewn cyfyng gyngor ynglŷn â phwy ddylai gymryd y gwasanaeth, ceisiwyd datrys y broblem wrth i'r ddau gurad gynnal ras i weld pwy fedrai gyrraedd y pulpud yn gyntaf. Williams enillodd, er iddo orfod ymaflyd yn gorfforol yn ei wrthwynebydd i'w rwystro. Teimlai gryn dipyn o gywilydd o'i ymddygiad wedyn ac, yn annodweddiadol, ymadawodd yn ddirwgnach pan ollyngwyd ef o'r plwyf heb ei dalu.³⁸ Nid oedd yn gyndyn fel rheol i fynegi ei saffwynt a dywedir iddo ddweud ei farn yn blaen iawn wrth Howel Harris am ei berthynas â Madam Griffith yn y dadleuon yn arwain i fyny at Ymraniad 1750, ac nid oedd Harris yn un i dderbyn cerydd yn rhwydd ac yn dawel.³⁹

Greddf arferol Williams felly oedd i'w amddiffyn ei hun ac i ymladd ei achos hyd yr eithaf. Dyna a wnaeth dros helynt Beibl 1790 yn ogystal, gan fwydo'r tân i raddau helaeth. Pan glywodd am yr adwaith negyddol i'r Beibl, lluniodd *Llythyr at Hen Gydymaith mewn perthynas i gywirdeb cyfieithiad Beibl John Cann, yn ymddiffyn Diwygiad, ac gwrthbrofi Camachwyniad*. Yn y gyfrol, y mae'n ymateb yn chwyn i'r cyhuddiadau ei fod wedi newid geiriad y testun ac yn cyhuddo'i gyhuddwyr o ddiffyg brawdgarwch:

³⁷ Gweler ei adroddiad ar ei gamdrin gan Syr Wateyn Williams Wynn yn CMA, Lls Trefeca 3190a, 3 Ionawr 1748.

³⁸ Roberts, *Peter Williams*, 20-21.

³⁹ Gweler, er enghraifft, Dyddiaduron Howel Harris, 26 Mehefin 1750.

A ydyw yn weithred cydwybodol, o ddifrif, yn eich golwg chwi, gynnwys digasedd yn eich mynwes tuag at eich hen frawd; a diarddelu'ch cyd-weithiwr llafurus yng winllan Crist? Wele, a rhaid i'r neb a lwyr ymroddo i'r Arglwydd fod yn gas gan bawb? A oedd nebrhyw fatterion yn fwy angenrheidiol i'w trin yn eich cyfarfodydd, na chyd-ymgyngori, fel Saul, i hela chwannen? Rheitiach ymogelyd rhag Pabyddiaeth, gwiliad yn erbyn balchder yr oes, a heresi Sosiniaeth, sydd yn ymdaenu fel y diluw! Ni wnaethum â chwi ddim cam, ac ni wnaethum niwaid ychwaith i eglwys Crist.

Yn ddiammau y mae'r beiau a nodir yn eich llythyr (os ydynt feiau hefyd) yn rhy fychain i gyffroi digofaint, ac i dorri cwlwm cariad, rhwng brodyr Crist'nogol. Y trosedd a enwir yw, am sylwiadau a newid geiriau yn y Bibl bychan; ond ni ddarfu i chwi nodi'r bai yn y naill a'r llall. Ai cof gennych y gorchymyn, 'Câr dy gymmydog, na cheryddu henafgwr, na wnewch gam â'ch gilydd, byddwch ymarhous, frodyr.'⁴⁰

Nid Williams oedd yr unig un i deimlo fod y Methodistiaid wedi ymddwyn yn annheilwng tuag at un a oedd bron yn saith deg oed ac wedi gweithio i'r achos am dros ddeugain mlynedd. Cyhoeddodd John Williams, Sant Athan, ei 'Cân Diddarfod' mewn ymateb i'r anghydfod, enw addas ag ystyried hyd y gerdd. Cwynodd am y modd annhrugarog y trinnid Williams, gan fynnu: 'Pe byse Daniel ddoniol yno/fe geise Petr ware teg.'⁴¹ Ni wnaeth diarddel Williams fawr o les i'r Methodistiaid mewn gwirionedd, er na wnaeth gymaint o niwed â diarddel Harris, gan fod y mudiad erbyn 1791 yn gryfach ei gefnogaeth ac nad oedd Williams yn ffigwr mor allweddol bwysig yn nhrefn y mudiad ag oedd Harris yn ei ddydd. Niweidiwyd Williams yn ariannol gan fod y Methodistiaid wedi gwahardd ei aelodau rhag prynu Beibl 1790 a bu rhaid iddo yntau a David Jones fynd ar daith drwy Gymru i geisio dod o hyd i brynwyr, er bod y Bedyddwyr yn gefnogol iawn i David Jones fel un o'u gweinidogion. Cymerodd dair blynedd ar ddeg i Harris gymodi â'i frodyr wedi'r Ymraniad ym 1750 ac efallai petai gan Williams gymaint â hynny o amser yn weddill byddai yntau wedi cael ei dderbyn yn ôl i'r gorlan yn y pen draw. Yn eironig efallai, cafodd Nathaniel Rowland ei hun ei ddiarddel erbyn 1807 am ymddygiad annerbyniol a oedd yn cynnwys meddwi cyson.

At ei gilydd, derbyniodd Williams driniaeth fwy tyner gan haneswyr nag a gafodd gan ei gyd-grefyddwyr. Er cydnabod fod ganddo achos i ateb ynglŷn â'i athrawiaeth, ystyrir y modd y gweithredodd y Methodistiaid yn y mater yn ddidostur. Awgryma Derec Llwyd Morgan yn ei erthygl ar y pwnc mai 'anwybodaeth ddiwinyddol neu ddihidrydd diwinyddol yr ugeinfed ganrif biau bychanu *achos* y diarddeliad. Ond am ei *ddull*, y mae hynny'n fater

⁴⁰ P. Williams, *Llythyr at Hen Gydymaith*, 2-3.

⁴¹ J. Williams, *Can didarfod: sef pennillion addysgiadol, o gyfansoddiad Ioan ap Gwilim* (Caerdydd, 1793), 1.

gwahanol.⁴² Pan fu Williams farw ym 1796, cyhoeddwyd nifer o farwnadau yn beirniadu'r driniaeth a dderbyniodd gan y mudiad Methodistiaidd, ac yntau'n ŵr oeddrannus a oedd yn haeddu rhywfaint o barch a goddefgarwch.⁴³ Mynnai ei gyfaill Thomas William mewn marwnad iddo na fyddai neb yn codi llaw i'w wahardd o'r nefoedd fel y'i gwaharddwyd yn Sasiwn Llandeilo.⁴⁴ Teimlai teulu Peter Williams yn arbennig o ddig, fel y gellid disgwyl, ac fel y gwelir yn yr adnodau deifiol o'r Salmu a ddewiswyd gan ei feibion ar gyfer ei garreg fedd yn Llandyfaelog:

Canyis nid gelyn a'm difenwodd; yna y dioddefaswn; nid fy nghasddyn a ymfawrygodd i'm herbyn; yna mi a ymguddiaswn rhagddo ef: eithr tydi, ddyn, fy nghydradd, fy fforddwr a'm cydnabod. Y rhai oedd felus gennym gyd-gyfrinach, ac a rodiasom i dŷ Dduw ynghyd.⁴⁵

Dynodai'r geiriau hyn chwerwder yr anghydfod, a oedd yn waeth am ei fod wedi codi ymhlith rhai a fu'n gydweithwyr ac yn gyfeillion. Cwynai Peter Williams ei hun mai 'gelynion gŵr fydd tylwyth ei dŷ ei hun,' ac roedd y ffaith fod ei gymrodyr wedi cefnu arno yn ychwanegu'n fawr at ei boen.

Mewn un o'r marwnadau iddo, awgrymodd ei gyfaill Thomas William:

Tra fo Cymro'n medru darllen,
Am dy enw fe fydd son,
A thra argraphwasg a phapur
Nid anghofir am dy bo'n;
Pan bo enwau'r rhei'ny'n pydru
Heddyw sydd o enwau mawr,
Fe fydd d'enw oesoedd etto
Yn disgleirio fel y wawr.⁴⁶

O ran llwyddiant gwaith Peter Williams, yr oedd y llinellau hyn yn broffwydol i raddau, oherwydd datblygodd Beibl Peter Williams yn ffenomenon cyhoeddi yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gyda 35 argraffiad, pob un yn cynnwys y nodiadau dadleuol. Digon plaen oedd yr

⁴² D. Llwyd Morgan, *Pobl Pantycelyn*, 45.

⁴³ Er enghraifft, John Thomas, *Marwnad: neu goffadwriaeth o farwolaeth y Parchedig Mr. Peter Williams...yr hwn a aeth i'w orphwysfa...1796* (Caerfyrddin, 1796); Robert William, *Marwnad neu goffadwriaeth am y Parchedig Mr. Peter Williams, o Gaerfyrddin, Gweinidog yr Efengyl* (Croesoswallt, 1797); John Williams, *Marwnad: neu goffadwriaeth o farwolaeth y Parchedig Mr. Peter Williams o'r Gelli, yn agos i Gaerfyrddin...a hunodd...1796* (Caerfyrddin, 1796). Nid yw'n syndod fod llawer o'r marwnadau wedi ei argraffu gan John Ross, Caerfyrddin, y gŵr a fu'n gyfrifol am argraffu llawer o waith Peter Williams, gan gynnwys Beibl 1770.

⁴⁴ T. William, *Marwnad am y parchedig a'r ffyddlon was tros Dduw Mr. Peter Williams* (Caerfyrddin, 1796), 10.

⁴⁵ Salm 55: 12-14; Roberts, *Peter Williams*, 127.

⁴⁶ William, *Marwnad Mr. Peter Williams*, 5.

argraffiad cyntaf, er ei fod yn cynnwys dau fap, arfer a welwyd gyntaf yn argraffiadau'r SPCK dan olygyddiaeth Moses Williams ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif. Cafodd Peter Williams ganiatâd i atgynhyrchu'r mapiau a ymddangosodd ym Meibl SPCK Richard Morris, un yn dangos taith yr Israeliaid drwy'r anialwch at wlad yr addewid a'r llall yn olrhain teithiau'r Apostolion. Datblygodd y daith drwy'r anialwch yn un o hoff gymhariaethau emynwyr yr oes, a thybed nad oedd bodolaeth y map hwn yn cyfrannu at hynny?

Yn sicr, byddai mwy o siawns gan amryw o'r Cymry i weld map o Ganaan nag o'u gwlad eu hunain. Ychwanegwyd mwy o ddarluniau mewn argraffiadau diweddarach, ynghyd â chofrestr deuluol ar y blaen. Dyma ddatblygu Beibl Peter Williams fel y Beibl Teulu, a welwyd mewn sawl parlwr erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Daeth yn fusnes argraffu llwyddiannus dros ben, gyda rhychwant o fersiynau ar werth gydag amrywiaeth o gloriau ynghyd â chaeadau pres hardd. Rhaid gofalu serch hynny i beidio gor-ddweud am y canlyniadau byr dymor. Y gwir amdani oedd fod nifer sylweddol yn parhau heb fedru darllen y Beibl a ymddangosodd ym 1770, yn enwedig ar ôl tranc yr ysgolion cylchynol, er i'r ysgolion Sul helpu i wella'r sefyllfa o ddiwedd y ddeunawfed ganrif ymlaen. Yn yr hir dymor mewn gwirionedd y gwelir dylanwad Beibl Peter Williams a ddaeth yn rhyw fath o symbol o'r Gymru Anghydfurfiol, hyd yn oed os oedd, fel yr awgryma R. T. Jenkins, yn aml yn gwneud dim mwy na chynnal 'yr *aspidistra* ar y ford fach gron yn ffenestr y parlwr.⁴⁷

Yn yr ymrafael dros y Beibl a'i gynnwys, nid oedd Peter Williams ei hun heb ei fai ac efallai'n wir ei fod yn euog o Sabeliaeth. Ar yr un pryd, yr oedd yn rhannu'r un ymdeimlad o'r cwlwm rhwng Cristnogaeth a hanes Cymru a'i hiaith ag a nodweddai gyfieithwyr cyntaf yr Ysgrythurau, oherwydd cyfeiriodd yn rhagymadrodd ei Feibl at fersiwn Richard Davies am hanes cyflwyno'r efengyl i'r hen Frythoniaid gan Joseff o Arimathea. Cyfrifai'r dehongliad hwn ar hanes yn ddigon pwysig i olygu cyhoeddiad newydd o Lythyr Richard Davies ym 1774 ac eto ym 1778. Awgrymwyd yn ddiweddar mai'r Beibl oedd y llyfr mwyaf trefedigaethol yn hanes Cymru,⁴⁸ ac o ran bwriad y llywodraeth wrth ganiatáu'r cyfieithu y mae hynny'n sylw teg. Yn sicr y cyfieithiad o'r Ysgrythur a lwyddodd i droi'r Cymry gan bwyll bach o Babyddiaeth i Brotestaniaeth. Ond ochr arall y geiniog yn hanes yr Ysgrythur yn Gymraeg yw ymroddiad y rheini a fu'n llafurio y tu mewn i'r wlad i ddarparu cyflenwad digonol o gopiau ac i sicrhau bod y Cymry'n abl i ddarllen y Beibl yn eu hiaith eu hunain. Yr un blaenoriaethau a welir yng ngyrfa Peter Williams ac, yn hynny o beth, gellir ei ystyried mewn traddodiad anrhydeddus o ysgolheigion yng Nghymru o Syr John Prys a William Salesbury ymlaen a sylweddolai bwysigrwydd y wasg argraffu, neu 'canwyll y byd' fel y cyfeiriodd Lewis Morris ati ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif.⁴⁹ Fel yr hawliai Williams ei hun yn y rhagymadrodd i'r Beibl:

⁴⁷ R. T. Jenkins, 'Diarddeliad Peter Williams', yn *Yng Nghysgod Trefeca* (Caernarfon, 1968), 171.

⁴⁸ A. Price, *Gwrthddwygwyr Cymreig yr Eidal* (Caernarfon, 2005), 82.

⁴⁹ Lewis Morris, *Tlysau yr Hen Oesoedd* (Caergybi, 1735), 3.

...gallaf yn hy ddywedyd, mai cariad at fy nghenedl y Cymru, a gwir ddymuniad am eu Hiechydwrïaeth, a'm cymhellodd i 'sgrifenu yr hyn a 'sgrifenaïs; ac y mae yn dda gennyf gael cyfle fel hyn i fwrw fy hatling i'r drysorfa, ac i fod o ryw ddefnydd dros yr Eifengyl a'm Cenhedlaeth.

Eryn M. White's article examines the career of Peter Williams, whose popular editions of the Welsh Bible were the first to be published in Wales. The article describes the early history of the publication of the Welsh Bible in London, from the middle of the sixteenth century, and then examines the significance of 'Beibl Peter Williams', the first edition of which was published in 1770. Despite initial controversy over the theology of some of the explanatory notes, Williams's edition was a publishing phenomenon, with three editions appearing before 1800 and a further thirty five before 1900. This article is based on a lecture given at the National Library of Wales, Aberystwyth, on 14 March 2007, to celebrate the Centenary of the Library.